

Arweiniad Rhentu Doeth Cymru ar Gasglu a Defnyddio Gwybodaeth am Euogfarnau



03000 133344



rhentudoeth.llyw.cymru

Rhentu
Doeth
Cymru

Rent
Smart
Wales



Cefndir

Cafodd Cyngor Caerdydd ei ddynodi fel Awdurdod Trwyddedu Sengl Cymru ar gyfer gweithredu Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn rhoi rhwymedigaethau ar landlordiaid preifat eiddo rhent i gofrestru gyda'r Awdurdod Trwyddedu dynodedig. Hefyd, mae gofyn i'r rhai sy'n mynd ati i osod ac i reoli eiddo rhent gael trwydded i weithredu.

Cynhelir y Cynllun gan wasanaeth o fewn Cyngor Caerdydd o dan yr enw brand Rhentu Doeth Cymru (RSW)

Pam mae Rhentu Doeth Cymru yn gofyn am wybodaeth am Euogfarnau?

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf) yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Trwyddedu i sicrhau ei fod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol cyn rhoi trwydded o dan Adran 19 (2) (a).

Mae'r Ddeddf yn disgrifio yn Adran 20, wrth benderfynu a yw person yn berson addas a phriodol i gael ei drwyddedu, mae'n rhaid i Awdurdod Trwyddedu edrych ar **yr holl faterion y bydd yn eu hystyried yn briodol.**

Mae'n parhau gan ddweud:

Ymhlith y materion y mae'n rhaid i'r **Awdurdod Trwyddedu eu hystyried** y mae unrhyw dystiolaeth bod y person dan sylw wedi:

- a) cyflawni unrhyw drosedd gan gynnwys twyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau saethu neu gyffuriau neu unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n galw am ofynion hysbysu)
- b) wedi cyflawni gwahaniaethu anghyfreithlon neu aflonyddu ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd a ddiogelir dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, neu wedi achosi i berson arall ddiodef yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gyflawni neu mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw fusnes, neu
- c) yn groes i unrhyw ddarpariaeth y gyfraith sy'n ymwneud â thai neu landlord a thenant.

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi y gellir defnyddio dystiolaeth os:

- bydd yn perthyn i **unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig neu'n**

gysylltiedig yn flaenorol â'r Ymgeisydd (boed yn bersonol, trwy'r gwaith neu fel arall) a/neu

- mae'n ymddangos i'r Awdurdod Trwyddedu fod y dystiolaeth yn berthnasol i'r cwestiwn a yw'r person yn berson addas a phriodol i gael ei drwyddedu.

Mae Rheoliadau Rheoli Tai Rhent Preifat (Gwybodaeth, Cyfnodau a Ffioedd ar gyfer Cofrestru a Thrwyddedu) (Cymru) 2015 yn ei wneud yn ofynnol, mewn cais am drwydded, bod rhaid i Ymgeisydd roi (ymhlith pethau eraill) manylion am y canlynol mewn perthynas â'i hun:

- unrhyw euogfarnau sy'n perthyn i droseddau yn ymwneud â'r materion sydd wedi'u rhestru yn adran 20(3)(a) Deddf Tai (Cymru) 2014 (y Ddeddf)
- unrhyw farn gan lys neu dribiwnlys yn erbyn yr ymgeisydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac
- unrhyw euogfarnau sy'n perthyn i droseddau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n perthyn i'r darpariaethau y cyfeirir atynt yn adran 20(3)(c) y Ddeddf ac unrhyw ganfyddiad gan lys neu dribiwnlys fod yr ymgeisydd wedi mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Arweiniad ar y prawf "person addas a phriodol" ar gyfer trwyddedu landlordiaid ac asiantau, y gellir cael mynediad ato [yma](#). Mae'n dweud:

"mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu ystyried **pob mater y mae'n ei ystyried yn briodol**. Dylai unrhyw dystiolaeth a ystyrir i fod yn **berthnasol i addasrwydd y person** i fod â thrwydded a **gosod a rheoli eiddo rhent** yng Nghymru".

Pa wybodaeth y mae Rhentu Doeth Cymru yn ei chasglu mewn perthynas ag Euogfarnau?

Bydd y wybodaeth a gesglir mewn perthynas ag euogfarnau yn wahanol o achos i achos oherwydd bod ar Rentu Doeth Cymru ddyletswydd i ystyried **pob mater** y mae'n ystyried ei fod yn berthnasol. Fodd bynnag, fel arfer, byddai gwybodaeth berthnasol mewn perthynas ag euogfarnau yn cynnwys:

- Unrhyw Euogfarn heb ei Disbyddu (mewn perthynas â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974)
- Euogfarnau wedi'u Disbyddu a Heb eu Disbyddu (mewn perthynas â Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974) yn benodol mewn perthynas ag:

(a) unrhyw drosedd gan gynnwys twyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau saethu neu gyffuriau neu unrhyw drosedd a restrir yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (troseddau sy'n galw am ofynion hysbysu)

(b) gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon ar sail unrhyw nodwedd a ddiogelir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010, neu erlid person arall yn groes i'r Ddeddf, neu'n gysylltiedig a pharhad unrhyw fusnes, neu

(c) unrhyw ddarpariaeth o'r gyfraith sy'n gysylltiedig â thai neu landlord a thenant.

- Unrhyw euogfarnau a/neu wybodaeth parthed peidio â chydymffurfio y mae Rhentu Doeth Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol,
- Unrhyw dystiolaeth o beidio a chydymffurfio ag Awdurdodau Rheoleiddio
- Unrhyw amgylchiadau esgusodol

Gallai'r wybodaeth hon fod mewn perthynas â'r Ymgeisydd, y Trwyddedai neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig neu'n gysylltiedig o'r blaen â'r person (boed yn bersonol, trwy'r gwaith neu fel arall).

Yn nodweddiadol **dim ond euogfarnau heb eu disbyddu** a ystyrir fel rhan o'r prawf person addas a phriodol, fodd bynnag, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried euogfarnau wedi'u hysbyddu, mae wedi gwneud a bydd yn gwneud, lle y maent yn berthnasol i osod a rheoli eiddo yng Nghymru.

Nid yw Rhentu Doeth Cymru yn casglu gwybodaeth am droseddau gyrru ac nid oes rhaid i'r Ymgeisydd eu Datgan. Fodd bynnag, mae **Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i gasglu, cadw a phrosesu gwybodaeth** parthed y fath droseddau **os y'u hystyri yn berthnasol** i'r prawf addas a phriodol

Sut mae Rhentu Doeth Cymru yn casglu'r wybodaeth hon?

Cesglir gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r:

Ymgeisydd

- Datganiad gan yr ymgeisydd yn ystod y broses gwneud cais am drwydded neu yn ystod cyfnod y drwydded

- Darparu tystysgrif gwahardd data
- Sylwadau mewn perthynas â'i euogfarn gan gynnwys:
 - Cyfweliad
 - Ysgrifenedig
 - Adroddiad Cyn Dedfrydu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
 - Datganiadau tystion
 - Tystlythyrau cymeriad sensitif
 - Canfyddiadau tribiwnlys/panel cyflogaeth neu broffesiynol
 - Aseidiadau meddygol
 - Trwyddedau a chofrestriadau eraill
 - Hysbysiadau ffurfiol/gorchmynion/rhybuddion/dirwyon
 - Amgylchiadau esgusodol

Trydydd Parti

- Datganiad trydydd parti yn ystod y broses gwneud cais am drwydded neu gyfnod y drwydded, os yw'r person yn gysylltiedig neu'n gysylltiedig o'r blaen â'r ymgeisydd.
- Trydydd parti arall gyda gwybodaeth berthnasol

Sefydliadau Allanol

- Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth i gael gwybodaeth o Gronfa Ddata Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC)
- Ceisiadau am Dystysgrif Euogfarnu/Memorandwm Euogfarnu gan lysoedd y Goron/yr Ynadon
- Hysbysiad o ganlyniadau erlyn gan Awdurdodau Lleol a chyrrff gorfodi eraill
- Ceisiadau am Wybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 gan Awdurdodau Rheoleiddiol eraill

Ymchwiliadau Annibynnol

- Ffynonellau newyddion (mae hyn yn gyhoeddus ac yn anecdotaidd)

Beth fydd Rhentu Doeth Cymru yn ei wneud gyda'r wybodaeth am Euogfarnu

Caiff gwybodaeth am euogfarnu ei defnyddio at y dibenion canlynol yn unol

â dyletswyddau a roddir ar yr awdurdod trwyddedu ac arweiniad a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru:

- Penderfynu ar gais am drwydded
- Diwygio trwydded
- Rheoleiddio Trwyddedai
- Diddymu trwydded
- Helpu awdurdodau lleol a'r awdurdod trwyddedu i ymgymryd â'u dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Defnyddir y wybodaeth i benderfynu addasrwydd a phriodoldeb ymgeisydd neu drwyddedai er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am osod a rheoli eiddo yn y sector rhent preifat yn ddigon onest a chanddynt gymeriad da. Mae'r penderfyniad hwn yn cynnwys dadansoddiad o wybodaeth am euogfarnu ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall megis hanes gorfodi tai er mwyn sicrhau nad yw'r Ymgeisydd/Trwyddedai yn peri risg i les neu ddiogelwch tenantiaid neu'r gymuned ehangach.

Holir y wybodaeth er mwyn penderfynu:

- Perthnasedd a dilysrwydd
- A oes angen ymchwiliad pellach.
- A oes angen rhagor o geisiadau am wybodaeth neu sylwadau gan naill ai'r ymgeisydd neu ffynonellau amgen
- A yw'r euogfarnau'n berthnasol. Pan na fydd euogfarnau'n berthnasol cânt eu diystyru o'r ymchwiliad a chaiff yr achos ymchwilio ei gau.
- A gyflawnwyd troseddau eraill o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Wrth gloi'r ymchwiliad, gwneir penderfyniad ffurfiol parthed; addasrwydd a phriodoldeb yr ymgeisydd/trwyddedai, neu unrhyw dorri amodau trwydded.

Storio a Chadw

Caiff yr holl ddata personol ei storio'n saff ac yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth diogelu data cyfredol a pholisi cadw Cyngor Caerdydd.

Mae ein polisi cadw yn rhestru'r amserlenni ar gyfer cadw a dinistrio dogfennau. Y cyfnod cadw yw 6 + 1 blynedd ar ôl i'r drwydded a/neu gofrestrriad ddod i ben, gael ei dynnu yn ôl, ei ddiddymu neu ei wrthod (pa

bynag un sy'n dod yn gyntaf). I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Rhentu Doeth Cymru ar:

Mae Rhentu Doeth Cymru yn cadw'r hawl i gadw gwybodaeth am gyfnod amhenodol pan fydd yn credu ei fod yn bosibl bod y wybodaeth yn berthnasol i geisiadau presennol neu yn y dyfodol.

Eich hawliau dan Ddeddf Diogelu Data 2018

Mae gennych hawl i arfer eich hawliau unigol, gan gynnwys mynediad at wybodaeth cywiro gwybodaeth anghywir neu'n gwrthwynebu prosesu eich data personol.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau, gallwch fynd i'r wefan [hon](#).

Gallwch hefyd ysgrifennu at:

Y Swyddog Diogelu Data,

Neuadd y Sir,

Glanfa'r Iwerydd,

Caerdydd,

CF10 4UW

E-bost: hawliauunigol@caerdydd.gov.uk